# COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED LLANILAR

Gynhaliwyd ar yr 5ed o Fai 2015 am 7.30y.h.

**PRESENNOL**:- Cynghorwyr:- Dewi Rattray(Cadeirydd), Rowland Jones, Ann Tudor, Meic Francis, Dylan Edwards, Meirion Davies a John Davies.

**YMDDIHEURIADAU**:- Cyng.Caredig Jones, Richard Davies a Ada Evans

Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd.
Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**15/839**
Darllenwyd y cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf (6ed Fai 2014) a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.Meirion Davies

**15/840**
**MATERION YN CODI**
Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

**15/841**
**UNRHYW FATER ARALL**
Eto nid oedd dim materion i'w trafod.

**15/842**
**ARIANNOL**
Rhannwyd copi o'r Adroddiad Ariannol a chofrestr o'r Eiddo Sefydlog o'r Cyngor Cymuned i bob aelod. Cynigiwyd eu bod yn foddhaol gan y Cyng.John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis. Diolchwyd unwaith yn rhagor i Mr.Neville Jones am ei waith fel Archwiliwr Mewnol.
Llofnodwyd yr Adroddiad o'r Archwiliad Mewnol Blynyddol gan y Cadeirydd a'r Clerc

**15/843**
**ETHOL SWYDDOGION**
Dachraeodd y Cyng.Dewi Rattray drwy ddiolch i bawb am ei cefnogaeth yn ystod y flwyddyn diwethaf, drwy gydol eu gyfnod fel Cadeirydd. Diolchodd Eirys Davies am ei waith dros eu chyfnod fel Clerc ac diolchoch y Cyng.Ann Tudor fel Is-Cadeirydd am 'sefyll i fewn' ar mwy nag un adeg.

Aeth diolch hefyd i'r Cyng.Meic Francis am ei fod wastad yn barod I edrych dros lawer o'r llythyron a dogfennau sy'n dod o flaen sylw y Cyngor.

Etholwyd y Cyng.Ann Tudor yn Gadeirydd am y flwyddyn 2015-16. Cynigiwyd gan y Cyng. Roland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.  Roedd pob aelod o'r pwyllgor yn cytun.
Etholwyd y Cyng.Dylan Edwards yn Is-Gadeirydd. Cynigiwyd gan y Cyng. Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.  Unwaith eto, roedd y pwyllgor yn cytun.  Croesawodd y Cyng.Dewi Rattray y Cyng.Ann Tudor i'r gadair.

Diolchodd y Cyng.Ann Tudor i'r Cyng.Dewi Rattray am ei waith yn ystod y flwyddyn.

Gorfennwyd y Cyfarfod Blynyddol.